# Byddwch yn Seiber Ddiogel
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Byddwch yn Seiber Ddiogel yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2 y Fframwaith ABCh ar gyfer pobl ifanc 7 i 19 oed yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| **Byddwch yn Seiber Ddiogel Gweithgareddau ychwanegol** | **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| **1. Gweithgaredd dilynol** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Adnabod y cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Ffurfio ban bersonol a gwneud penderfyniadau | • Bod gweithredoedd personol yn esgor ar ganlyniadau<br>• Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu |
| **2. Gweithredu Smart** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol<br>• Darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau<br>• Defnyddio TGCh yn ddiogel gyda chefnogaeth ac arweiniad priodol. | • Deall pwysigrwydd diogelwch personol<br>• Deall bod i weithredoedd personol ganlyniadau.<br>• Cyfle i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu |
| **3. Ymwybyddiaeth ar-lein** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)s&th<br>Ll(D)y&d<br>Ll(D)y&d<br>Rh(DSD)cchd | ▪ Nodi cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>▪ Cydweithio i ddatrys problemau<br>▪ Datblygu sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer bywyd bob dydd<br>▪ Defnyddio TGCh yn ddiogel gyda chefnogaeth ac arweiniad priodol. | ▪ Deall bod i weithredoedd personol ganlyniadau<br>• Deall pwysigrwydd diogelwch personol<br>• Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach. |

**Noder**

Mae gweithgareddau ychwanegol Byddwch yn Seiber Ddiogel yn defnyddio'r adnoddau cyfoethog sydd ar gael ar-lein. Mae'r gweithgareddau hyn yn gofyn am fynediad i'r rhyngrwyd gan fod nifer yn cyfeirio at wefannau penodol.

1. **Gweithgaredd dilynol** - Gofynnwch i'r dosbarth nodi y ffyrdd positif y mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd e.e. chwarae gemau, gwrando ar gerddoriaeth, darganfod gwybodaeth (pori'r we), anfon lluniau a fideos, sgwrsio gyda ffrindiau drwy negeseua gwib, negeseuon tecst neu e-bost. Ysgrifennwch eu hatebion ar y bwrdd.

2. **Gweithredu SMART** - Rhannwch y dosbarth yn grwpiau drwy ddosbarthu llythrennau sy'n sillafu 'ar lein' (2.a) a gofynnwch i'r dosbarth fynd i grwpiau sy'n sillafu'r gair h.y. 6 ymhob grŵp. Rhowch ddalen waith SMART (2.A) i bob grŵp. Dylai pob grŵp enwebu cofnodydd. Gofynnwch i'r disgyblion wylio 'Dongle the Rabbit' y gellir dod o hyd iddi ar www.kidsmart.org.uk yna cliciwch ar y tab ar frig y dudalen 'looking for the old site', yna cliciwch ar 'young people' ac yna ar 'games' o'r ddewislen ar yr ochr chwith, yna ar y dudalen gemau cliciwch 'safe surfing'. Chwaraewch y gêm gyda Dongle a gwrandewch ar y cyngor a roddir iddo. Nodwch ar eich dalen waith SMART y 5 neges ddiogelwch allweddol y mae'n eu cael yn ystod y gêm. http://www.bbc.co.uk/chatguide Helpwch ef i gadw'n ddiogel a gwneud y dewisiadau cywir.

   Yn yr un grwpiau ewch i wefan www.ThinkuKnow.co.uk, cliciwch ar adran 8 - 10 ac yna mynd i mewn i'r caffi seibr. Gofynnwch i bob grŵp ymchwilio i'r pynciau canlynol tra eu bod yn y caffi seibr nail ai drwy ddefnyddio'r ddewislen gyflym neu drwy glicio ar y person perthnasol yn y caffi seibr.

   - Stafell sgwrsio
   - E-bost
   - Pori'r we
   - SMS/negeseuon testun
   - Gofod ar-lein personol

   Gall y disgyblion hefyd edrych ar wefan www.kidsmart.org.uk a chlicio ar y tab priodol ar frig y dudalen hafan i gael cyngor ychwanegol am y pynciau hyn. Wedi casglu a chofnodi'r wybodaeth fel prif negeseuon gofynnwch i'r disgyblion gynllunio cyflwyniad PowerPoint bychan i gyflwyno gwybodaeth am eu pwnc i'r dosbarth. Dylai'r cyflwyniad esbonio sut y caiff y nodwedd ei defnyddio a sut i gadw'n ddiogel tra'n ei ddefnyddio.
   **Y neges allweddol yn 'Gweithredu Smart' yw ei bod yn ddoeth i fod yn ofalus ac i ofyn am gymorth os bydd ei angen. Pwysleisiwch i'r disgyblion os ydynt yn teimlo'n anniogel neu dan fygythiad ar y rhyngrwyd y dylent ddweud wrth oedolyn y maent yn ymddiried ynddo/ynddi a/neu ei riportio ar wefan www.thinkuknow.ogr.uk.**

   I ymestyn yr ymarferiad hwn gallai'r grwpiau lawrlwytho copi o reolau SMART ac wedi trafodaeth gallant greu poster gan ddefnyddio adnoddau o'r y we i egluro ffactorau SMART i'w teuluoedd a'i ffrindiau. Mae awgrymiadau i'ch helpu yn www.kidsmart.org.uk yna cliciwch ar y dudalen hafan ac yna'r oriel.

3. **Ymwybyddiaeth ar-lein -** Rhannwch y dosbarth yn grwpiau.. Rhowch set o gardiau cyfatebu i bob grŵp. (3.a) Gofynnwch i'r grwpiau ddidoli'r cardiau i dri chategori:

- Cerdyn gair allweddol
- Cerdyn gwybodaeth
- Cerdyn cyngor diogelwch

Yna esboniwch i'ch grwpiau fod yn rhaid iddynt gyfatebu'r cerdyn gair allweddol gyda'r cerdyn gwybodaeth cywir a'r cerdyn cyngor diogelwch cywir ar gyfer y nodwedd honno. Ceir enghraifft isod

| | | |
|---|---|---|
| Spam | e-byst na wnaethoch ofyn amdanynt gan bobl nad ydych yn eu hadnabod | Defnyddiwch hidlydd spam |

Ymarferiad

| | | |
|---|---|---|
| Cyfeiriad e-bost | eich cyfeiriad ar-lein | defnyddiwch ffugenw, peidiwch â rhoi eich manylion |
| Firysau | gallant ddileu eich ffeiliau a dinistrio eich cyfrifiadur neu deithio mewn e-bost, drwy atodiadau neu ddolenni | dilëwch hwy heb eu hagor |
| Seibr-fwlio | pan fydd rhywun yn defnyddio'r rhyngrwyd neu ffôn symudol i gynhyrfu rhywun arall yn fwriadol | dysgwch sut i flocio negeseuon/dywedwch wrth oedolyn |
| Seibr-ffrind | ffrind yr ydych ond yn ei adnabod ar y rhyngrwyd neu seibr-ofod | Seibr-ffrind |
| Phishing | bydd rhai e-byst yn ceisio eich twyllo i ddatgelu gwybodaeth bersonol | Phishing |
| Negeseua gwib | pobl yn cyfarfod ar-lein i siarad â'i gilydd | Negeseua gwib |
| Stafell sgwrsio | amgylchedd agored lle gall pobl siarad â'i gilydd | defnyddiwch safle sydd â chymedrolwr |
| Gwe gamera | camera digidol a ddefnyddir i dynnu | trowch y camera i'r cyfeiriad arall pan na fydd yn cael ei |

| | lluniau a'u trosglwyddo dros y rhyngrwyd | ddefnyddio |
|---|---|---|
| Cerddoriaeth | os ydych yn lawrlwytho cerddoriaeth P2P (peer to peer) efallai y byddwch yn gadael i ddefnyddwyr eraill gael mynediad at eich cyfrifiadur | lawrlwythwch gerddoriaeth o wefannau cyfreithlon yn unig |
| Rhannu ffeiliau | caiff clipiau sain a fideo amheus eu hanfon o gwmpas gan ddefnyddio rhwydweithiau a rennir a gallai eich rhieni fynd i drafferthion mawr | diogelwch eich hun drwy lawrlwytho clipiau sain a fideo o wefannau cyfreithlon yn unig |
| Bluetooth | cysylltiad diwifr ar gyfer ffonau, cyfrifiaduron, bysellbadiau ac ati sy'n caniatáu iddynt gyfathrebu | diffoddwch eich ffôn/cyfrifiadur pan na'i defnyddir gan y gall unrhyw un gael mynediad at eich gwybodaeth pan fydd ymlaen |
| Gosodiad preifatrwydd | diogelwch i wneud yn siŵr eich bod yn ddiogel rhag dieithriaid a allai anfon negeseuon nad ydych eu heisiau. | newidiwch y gosodiadau fel mai dim ond eich ffrindiau yn y byd go iawn all gael mynediad i'ch gwefan |

Caniatewch i'r grwpiau drafod a chytuno ar y cyfatebion. Gellir amseru'r gweithgaredd hwn. Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth am eu hatebion a gwiriwch y rhain yn erbyn yr atebion a ddarperir (3.b). Bydd yr atebion yn hybu trafodaeth ac yn rhoi cyfle i gywiro unrhyw gamdybiaethau. I gael gwybodaeth bellach efallai y bydd athrawon am ddarllen y ffeithiau ychwanegol a ddarperir ar www.thinkuknow.co.uk neu www.kidsmart.org.uk

I gwblhau'r ymarferiad hwn naill ai gofynnwch i'r dosbarth

chwarae y gemau ar wefan www.thinkuknow.co.uk. Cliciwch ar tab y grŵp oedran 8 i 10 a ddewiswch y dewis i chwarae gemau. Dewiswch o'r ddewislen ganlynol:

- 'duck hunter' sy'n amlygu peryglon ar-lein
- 'safe or unsafe email'
- 'spider quiz' – ailadrodd cynghorion diogelwch pan ar-lein
- 'shooting gallery' – cwis ar y rhyngrwyd
- 'blockbuster' – terminoleg y rhyngrwyd
- 'Who's ya buddy?' - peryglon cysylltiadau gyda dieithriaid

Gofynnwch i'r grwpiau gofnodi eu sgoriau i weld faint y maent wedi ei ddysgu

neu

Ewch i'r cwis rhyngweithiol yn www.kidsmart.org.uk, ar y dudalen hafan cliciwch ar y tab 'looking for the old site' ar frig y dudalen, yna dewiswch 'games' o'r ddewislen ar ochr chwith y dudalen, yna dewiswch 'quiz'. Bydd yr ymarferiad hwn yn atgyfnerthu dysgu blaenorol.

4(i). Mewn grwpiau trafodwch Story Nathan (4a) a'r peryglon posib i ddiogelwch personol Nathan. Pa gyngor fyddai'r grwpiau yn eu rhoi i Nathan?
Cwestiynau posibl

- Sut ydych chi'n credu oedd Nathan yn teimlo ar ôl darllen y negeseuon? (Yn flin, yn drist, yn ofnus yn hapus... dechreuwch ehangu geirfa o fewn pob ystod emosiynol)
- Pa gyngor allech chi ei roi i Nathan pe baech wedi darllen beth oedd pobl yn ei bostio ar ei wefan?
- Pam ydych chi'n meddwl fod pobl am frifo ei deimladau?
- Sut allai rywun fod wedi cael ffotograff o Nathan i'w roi ar y poster?

4(ii). Rhowch cerdyn senario Nathan (4b) i bob grŵp ac eglurwch bod eu ffrind Nathan wedi cwrdd â rhywun mewn ystafell sgwrsio ar y rhyngrwyd. Rhoddodd Nathan ei 'Addy' (sef ei gyfeiriad e-bost sy'n cael ei ychwanegu at rhestr o ffrindiau) i'r unigolyn yma, sef Emily, ac mae wedi bod yn cysylltu â hi gan ddefnyddio MSN. Mae angen cyngor ar Nathan gan bob grŵp ynglŷn â beth i'w wneud. Adborth fel dosbarth.

5. Gan ddefnyddio'r Straeon Rhyngrwyd sy'n seiliedig ar fywyd go iawn (5a) neu'r cwis rhyngweithiol ar y PowerPoint (5b) gofynnwch i'r dosbarth mewn grwpiau drafod a phenderfynu beth fyddai'r dewis gorau ym mhob achos. Adborth dosbarth.

6. Gall y disgyblion ymchwilio i ba gyngor diogelwch byddent yn eu rhoi i frawd neu chwaer yn llai.

7. Mewn parau/grwpiau gall y disgyblion gynllunio canllaw ar gyfer defnyddio'r gwahanol gyfryngau o gyfathrebu digidol yn fwy diogel.

8. Argraffwch boster o'r rheolau SMART (8a) i atgoffa'r dosbarth o'r rheolau diogelwch pan yn defnyddio'r rhyngrwyd.